**AGENDA EITEM RHIF 2**

## CYNGOR SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Nant, Ffordd Llys Nant, Prestatyn ar Ddydd Llun, 8 Hydref 2001 am 10.00 a.m.

### PRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr K.N. Hawkins, D. Jones, a F. Shaw

**Yn cynrychioli Cyd-Bwyllgor Negodi Athrawon Sir Ddinbych**

Mrs. M.B. Lloyd (Cadeirydd), M. Barros-Curtis, M. Matthews

**Yn cynrychioli enwadau crefyddol**

T. Bryer, Y Parch. P.J. Collinson, H. Ellis, M. Evans, J. Gibson, J. Kirkham, Y Parch. J. Owen

**Aelod Cyfetholedig**

T. ap Sion (dirprwy ar ran Y Parch. Athro L.J. Francis)

### HEFYD YN BRESENNOL

Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a Swyddog Gweinyddol (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

M. Colbert, S. Harris, Y Chwaer Elizabeth, N. Roberts, C. Thomas a'r Cynghorwyr S. Drew, M.M. Jones a T.M. Parry

**MAES LLAFUR CYTUN AR GYFER ADDYSG GREFYDDOL**

Cyn dechrau'r cyfarfod dosbarthodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG gopïau o Faes Llafur Cytun Addysg Grefyddol Sir Ddinbych i'r aelodau.

**651. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

**(a) Sefydlu'r Cadeirydd Newydd (yr Is-Gadeirydd presennol)**

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych, sefydlwyd yr is-gadeirydd presennol, Mrs. M.B. Lloyd, yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Diolchodd Mrs. Lloyd i'r aelodau am ei phenodi a thalodd deyrnged i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd D. Jones, am y gwaith a gyflawnodd dros y flwyddyn ddiwethaf. Wrth ymateb cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y profiad gwerthfawr yr oedd wedi'i gael yn ystod ei flwyddyn fel Cadeirydd a dymunodd y gorau i Mrs. Lloyd yn dilyn ei phenodi i'r gadair.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr. T. Bryer yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru; Mrs. M. Matthews yn cynrychioli'r NUT (Athrawes Gynradd); a Ms. M. Barros-Curtis yn cynrychioli'r NUT (Ysgol Arbennig) i'w cyfarfod cyntaf CYSAG Sir Ddinbych.

**(b) Penodi Is-Gadeirydd (o blith cynrychiolwyr yr enwadau crefyddol)**

Yn unol â chyfansoddiad CYSAG Sir Ddinbych gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd o blith cynrychiolwyr yr enwadau crefyddol. Cynigiwyd ac eiliwyd penodi'r Parch John

Owen yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod. Dywedodd y Parch John Owen y byddai'n fodlon derbyn ei benodi'n Is-Gadeirydd ac ar ôl bwrw pleidlais:-

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Parch John Owen yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.*

**652. PROFEDIGAETH**

Cyfeiriodd aelod at farwolaeth diweddar brawd y Cynghorydd Morfudd Jones a chytunwyd y dylid anfon llythyr at y Cynghorydd Jones ar ran CYSAG Sir Ddinbych yn mynegi cydymdeimlad yr aelodau.

**653. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2001 (a ddosbarthwyd yn flaenorol), fel a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ar 18 Medi 2001.

**Materion yn codi**

Eitem Rhif 277 - Adroddiadau Arolygiad: Dadansoddi'r Adroddiadau ar Ysgolion - Cyfeiriodd aelod at yr angen i sicrhau bod yr ysgolion hynny y nodwyd nad oeddynt yn bodloni'r gofynion cyfreithiol statudol o ran darpariaeth AG yn cydymffurfio â'r gofynion hynny yn awr. Mewn ymateb dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG bod llythyr wedi'i anfon at yr holl ysgolion yn mynegi pryder CYSAG Sir Ddinbych ac i'w hatgoffa am y gofynion cyfreithiol o ran darpariaeth AG. Hefyd dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at ysgolion unigol o ran ymdrin ag unrhyw wendidau a nodwyd yn adroddiad arolygiad eu hysgol. Teimlai'r aelodau y dylid ymchwilio ymhellach i sicrhau bod yr holl ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol a bod y problemau hynny a nodwyd yn yr adroddiadau arolygiad wedi'u datrys a:-

***PHENDERFYNWYD*** *bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG i ysgrifennu at yr ysgolion priodol i holi'n benodol am y camau a gyflwynwyd i ymdrin â'r meysydd a oedd yn peri pryder.*

Eitem rhif 281 - Prosiect Luc: Yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru - Adroddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ei fod yn aros am ragor o fanylion ynghylch cost a phryd fyddai'r aralleiriad o Efengyl Luc ar gael cyn mynd at y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes a chadarnhaodd y byddai'n parhau i ymdrin â'r mater nes sicrhau canlyniad boddhaol.

Teimlai aelod bod pennawd y cofnodion ar gyfer yr eitem yn gamarweiniol gan y nodwyd yn glir yn y cofnodion y cyflwynwyd cais i Gyfarwyddwr Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru ar ran y gweithgor, ac nid yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

Ar y pwynt yma manteisiodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar y cyfle i hysbysu'r Aelodau fod cynrychiolwyr yr Eglwys yn yr ardal wedi cynnig darparu copïau o fideo yn dwyn y teitl 'Jesus: The Man Behind the Millennium', ynghyd â llyfryn, am ddim, i'w dosbarthu i ysgolion yn yr ardal. Yn dilyn ymgynghori â Chyfarwyddiaethau Addysg awdurdodau lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, y mae wedi gofyn am 325 o gopïau a chadarnhaodd y byddai copi Cymraeg ar gael hefyd.

**654. ACCAC: ADOLYGIAD Y MEYSYDD LLAFUR ADDYSG GREFYDDOL**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ddogfen arweiniad ACCAC ynghylch Adolygiad y Meysydd Llafur AG (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r aelodau ei ystyried. Mae'r Ddogfen Arweiniad yn cynnig cyngor ac arweiniad anstatudol i'r holl rai sy'n ymwneud ag adolygu meysydd llafur y cytunwyd arnynt yn lleol, ac yn nodi'r materion y gallai cynhadledd maes llafur cytun eu hystyried fel rhan o'u hadolygiad. Daw'r ddogfen hon yn lle yr hyn a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 1996 gan adelwyrchu'r newidiadau yn y gyfraith a'r datblygiadau yn sgîl diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Atgoffodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yr aelod y cyfeiriwyd at ffurf ddrafft y ddogfen wrth lunio'r Maes Llafur Cytun diwygiedig a'u bod wedi ystyried yr argymhellion a nodwyd yn y ddogfen lle bynnag y bo modd. Adroddodd yn benodol ynghylch y paragraffau a ganlyn yn y ddogfen yn cyfeirio at Faes Llafur Cytun diwygiedig Sir Ddinbych fel a ganlyn:-

2.2 nodwyd y gofynion cyfreithiol yn glir, yn cynnwys dyfyniad uniongyrchol o'r ddogfen arweiniad ynghylch darpariaeth AG i'r holl ddisgyblion cofrestredig, yn cynnwys disgyblion ysgol cofrestredig o dan bump oed ac ôl-16 oed;

2.3 gwneir yn glir bod traddodiadau crefyddol Prydain Fawr yn rhai Cristnogol yn bennaf tra'n ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill ac hefyd manylion clir am ba grefydd/au y dylid eu cyflwyno ymhob Cyfnod Allweddol;

3.0 dilynir fframwaith debyg i'r un a ddefnyddir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mae'r gofynion cyffredin a nodir ar dudalen 8 y ddogfen wedi'u geirio mewn modd priodol ar gyfer AG;

3.4.2 cynhwyswyd datganiad ffocws ar gyfer pob dimensiwn, ynghyd â'r cyd-destun a'r canlyniadau dysgu ac enghreifftiau;

3.5 roedd ysgolion wedi'u hysbysu am benderfyniad y Gynhadledd Maes Llafur Cytun i ymgorffori'r tagedau cyrhaeddiad diwygiedig a gyhoeddwyd yn y ddogfen arweiniad derfynol yn y Maes Llafur Cytun a bod mesurau'n cael eu gweithredu i lungopïo a dosbarthau'r tudalennau perthnasol; ac

3.6 adroddwyd am y rhaglen astudio sydd ar gael, yn cynnwys addysg ôl-16.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn Dogfen Arweiniad ACCAC ar Adolygiad Meysydd Llafur AG a'r adroddiad llafar gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

**655. ACCAC: ADOLYGIAD ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYSAGAU**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG Adolygiad Adroddiadau Blynyddol CYSAGau 1998 - 1999 ac 1999 - 2000 ACCAC (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'r aelod eu hystyried.

Esboniodd y Cadeirydd ei bod yn ofynnol i bob CYSAG gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn crynhoi ei weithgareddau, a bod copi o'r adroddiad hwnnw yn cael ei gyflwyno i ACCAC. Dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG bod cyfeiriadau cyson at CYSAG Sir Ddinbych drwy gydol yr adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y crynodeb yn rhoi manylion am argymhellion ACCAC i GYSAGau ystyried cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol. Gofynnodd i'r aelodau ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Sir Ddinbych 2000 - 2001 gan ystyried yr argymhellion hyn.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn Adolygiad Adroddiadau Blynyddol CYSAGau 1998 - 1999 ac 1999 - 2000 ACCAC; ac*

*(b) anfon llythyr o ddiolch i ACCAC, ar ran CYSAG Sir Ddinbych, am y gwaith a wnaed wrth lunio a chyhoeddi'r Adolygiad.*

**656. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG gopi drafft o Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych 2000 - 2001 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhoi crynodeb o weithgareddau CYSAG Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y Maes Llafur Cytun; Safonau mewn Addysg Grefyddol; Addoli ar y cyd/Datblygu SMSC; darpariaeth Hyfforddiant mewn Swydd a nifer o faterion eraill.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai'r eitem hon yn gysylltiedig ag Adolygiad Adroddiadau Blynyddol ACCAC a chynghorodd y dylid ystyried yr Adroddiad Blynyddol Drafft gan gofio'r argymhellion a nodwyd yn adolygiad ACCAC.

Aeth yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ymlaen i arwain yr aelodau drwy'r adroddiad yn drylwyr ac awgrymodd nifer o ychwanegiadau yn sgîl argymhellion ACCAC.

Mewn ymateb i gwestiwn aelod dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei anfon i ysgolion ynghyd â chais eu bod yn sicrhau eu bod ar gael i lywodraethwyr yr ysgol. Teimlai aelod y dylid dwyn yr adroddiad i sylw'r llywodraethwyr a chadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG y byddai'n ymdrin â'r mater gan adlewyrchu sylwadau'r CYSAG.

Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch y diffyg ariannu GEST i gyflenwi'r ddarpariaeth hyfforddiant ond roeddynt yn falch o nodi bod mwyafrif y cyrsiau AG wedi cael eu cefnogi a thalwyd teyrnged i'r athrawon hynny sy'n ymwneud â darpariaeth AG. Mewn ymateb i awgrym gan aelod y dylid cyflwyno cais i'r Cynulliad Cenedlaethol am ragor o arian ar gyfer hyfforddiant, dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG bod cais o'r fath wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad yn flaenorol.

Wrth drafod y safonau monitro mewn AG, teimlai'r Aelodau fod y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol ac y byddai cyflawni rhagor o arolygon yn wrthweithiol.

Wrth ystyried yr adroddiad, manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau penodol i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ynghylch y materion hynny a gynhwyswyd yn yr adroddiad, ac yn dilyn trafodaeth lawn a thrwyadl:-

***PENDERFYNWYD*** *derbyn Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Sir Ddinbych, yn dilyn ymgorffori'r ychwanegiadau a ganlyn yn yr adroddiad:-*

*(i) (a) Safonau mewn Addysg Grefyddol*

*- bod yr ysgolion hefyd yn cael eu hysbysu am y meysydd sy'n peri pryder a nodwyd yn yr adroddiadau arolygiad ac yn cael eu gwahodd i ystyried eu sefyllfa eu hunain o ran y mater dan sylw.*

*- bod yr ysgolion yn cael eu hysbysu am ganlyniadau arholiadau a'r gymhariaeth rhwng y canlyniadau hynny a'r cyfartaledd cenedlaethol.*

*(ii) (c) Darpariaeth Hyfforddiant mewn Swydd*

*- bod ysgolion yn cael eu cynghori am y dulliau addysgu a'r defnydd o adnoddau ar gyfer AG.*

Mynegodd y Cadeirydd ei siom nad oedd cyfieithiad Cymraeg yr Adroddiad Blynyddol Drafft (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) wedi'i ddosbarthu i aelodau yn flaenorol a mynegodd ei phryder fod y cyfieithiadau Cymraeg yn hwyr yn gyson. Tra'u bo'n gwerthfawrogi bod yr oedi cyn derbyn cyfieithiadau yn deillio o'r galw mawr am y gwasanaeth a bod diffyg adnoddau, cyfeiriodd yr aelodau ei bod yn angerheidiol sicrhau bod y Cyngor Sir yn ymwybodol o bwysigrwydd darparu gwasanaeth cyfieithu cyflymach. Cynigiwyd ac eiliwyd cynnig y dylid anfon llythyr i'r perwyl hynny at Brif Weithredwr Gweithredol Cyngor Sir Ddinbych gyda chopi i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes er gwybodaeth, ac yn dilyn bwrw pleidlais:-

***PENDERFYNWYD*** *yn unol â hynny.*

**657. <u>CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU</u>**

Cyfeiriodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG at Gyfarfod Blynyddol Cymdeithas CYSAGau Cymru, a gynhaliwyd drwy garedigrwydd Cyngor Sir Ddinbych ar 17 Gorffennaf 2001. Hysbysodd yr aelodau ei fod wedi derbyn llythyr gan Ysgrifennydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn diolch i Sir Ddinbych am y lleoliad gwych a'r cyfleusterau ardderchog a ddarparwyd ar gyfer y cyfarfod ac yn nodi mai dyma un o gyfarfodydd mwyaf buddiol y Gymdeithas.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG a'r aelodau am fynychu'r Cyfarfod Blynyddol ac adroddodd fel a ganlyn am yr cyfarfod:-

(a) byddai fersiynau wedi'u golygu o'r cyflwyniadau a wnaed gan NAPfRE i'r Gymdeithas yn cael eu hargraffu ac yn cael eu cyhoeddi yn Newyddion AG lle bynnag y bo'n bosibl, a

(b) bod trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer cynnal symposiwm yn Llandrindod ar 27 Ebrill 2002 i drafod adolygiad y Maes Llafur Cytun gyda'r nod o wella statws AG yng Nghymru.

Cyfeiriodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG at adolygiad y cwricwlwm blynyddoedd cynnar lle nad oes unrhyw gyfeiriad penodol at Addysg Grefyddol na Datblygiad Ysbrydol. Cytunwyd y dylai'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ysgrifennu at ACCAC i ofyn am gynnwys AG a Datblygiad Ysbrydol yn y cwricwlwm blynyddoedd cynnar ac anfon llythyr at Gymdeithas CYSAGau Cymru gyda'r cais eu bod yn ymdrin â'r mater hwn gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ar lefel genedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau a'r swyddogion am fynychu'r cyfarfod ac am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.32 a.m.

************

**CYNGOR YMGYNHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)**

**DYDD IAU, 31AIN IONAWR, 2002**

**EITEMAU RHIF 3 A 4 DDIM AR GAEL AR FFURF ELECTRONIG**